cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

2024/25

# PN1 Nodiadau ar gyfer cais am Gyllid i Fyfyrwyr

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais
Gallwch wneud cais ar-lein hefyd yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk.**

**Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.**

**Ni** ddylech fod yn llenwi ffurflen PN1 os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych yn byw yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw fel arfer, ond rydych wedi symud i Gymru neu fe fyddwch yn symud i Gymru i ddilyn y cwrs hwn. Os mai dyma'ch sefyllfa, dylech gysylltu â'r sefydliad perthnasol o blith y canlynol:
  - Student Finance England (SFE);
  - Student Awards Agency Scotland (SAAS);
  - Eich Awdurdod Addysg (EA) lleol yng; Ngogledd Iwerddon;
  - Adran Addysg Guernsey neu Jersey; neu
  - Adran Addysg Ynys Manaw.
- Rydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn wladolyn o Aelod Wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac wedi symud i Gymru i fynychu cwrs Addysg Uwch. Os mai dyma'r achos, dylech gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr ar **0141 243 3570** neu ewch i: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** am ragor o wybodaeth.
- Rydych yn mynychu neu fe fyddwch yn mynychu cwrs addysg uwch rhan-amser. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwch yn gymwys i gael help os ydych yn astudio cwrs rhan-amser. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch ni ar **0300 200 4050**.
- Byddwch yn dechrau cwrs mewn disgyblaeth sy'n ymwneud ag iechyd ac yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Student Awards Agency Scotland (SAAS) neu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) **nad** yw'n cael ei hasesu ar incwm eich cartref.

Rhaid i chi ddefnyddio'r nodiadau hyn pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon hwn yn ffurflen PN1. n

Amlinellir unrhyw dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu yn y nodiadau hyn hefyd, a defnyddir yr eicon hwn i ddynodi hyn. t

Pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon tystiolaeth hwn yn ffurflen PN1, dylech droi at y nodiadau hyn i gael gwybodaeth am y dystiolaeth y bydd angen ei darparu.

# Adran 1 - cyllid sydd ar gael

## Benthyciad Ffioedd Dysgu BYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu os oes gennych eisoes radd anrhydedd o'r Deyrnas Unedig.

Os byddwch yn dechrau eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018 mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n codi ffioedd dysgu hyblyg neu amrywiol hyd at uchafswm o £9,250, byddwch yn gallu cael Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at uchafswm o £9,250.

Os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy'n codi ffioedd dysgu hyblyg neu amrywiol hyd at uchafswm o £9,250, byddwch yn gallu cael Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at uchafswm o £5,075. Efallai y byddwch yn gallu cael Grant Ffioedd o hyd at £4,175 i dalu gweddill eich ffioedd dysgu. Gweler yr esiampl yn yr adran Grant Ffioedd isod.

Os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg preifat dim ond Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at yr uchafswm, sef £6,165 y bydd modd i chi wneud cais amdano os yw'ch cwrs yn un sy'n gymwys am gefnogaeth ar gyfer ffioedd dysgu.

Bydd y Benthyciad Ffioedd Dysgu a fenthycwyd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn y flwyddyn academaidd. Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu o ddiwrnod cyntaf pob tymor.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu.

## Benthyciad Cynhaliaeth (Benthyciad ar gyfer Costau Byw) BYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai na fyddwch yn gymwys i hawlio Benthyciad Cynhaliaeth os ydych yn meddu ar radd anrhydedd o'r DU eisoes, oni bai eich bod yn dilyn cwrs gradd galwedigaethol penodol.

Os byddwch yn cychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018, mae'r ffordd y byddwn yn cyfrifo'ch Benthyciad Cynhaliaeth wedi newid. Mae cyfanswm y cyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael yn dibynnu ar ble rydych yn byw tra byddwch yn astudio. Bydd y swm hwn yn cael ei rannu rhwng Benthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.Byddwn yn cyfrifo swm y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallwch ei gael yn gyntaf, yna dyfarnir gweddill eich cyllid i fyfyrwyr fel Benthyciad Cynhaliaeth. Os byddwch yn gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth nag yr ydych chi'n gymwys i'w gael, byddwn yn dyfarnu'r swm is i chi.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth.

## Grant Dysgu Llywodraeth Cymru NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Bydd swm y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y byddwch yn gymwys i'w gael yn seiliedig ar incwm eich cartref a'r man lle'r ydych yn astudio.

Os byddwch yn cychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018, byddwch yn cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £1,000 o leiaf os nad ydych yn cael benthyciad ar gyfradd is. Mae cyfanswm y cyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael yn dibynnu ar ble rydych yn byw tra byddwch yn astudio. Bydd y swm hwn yn cael ei rannu rhwng Benthyciad Cynhaliaeth a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Os ydych chi'n cael Grant Cymorth Arbennig, efallai y byddwch yn gymwys i gael cyllid Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ychwanegol yn ychwanegol i'ch Grant Cymorth Arbennig.

Os cychwynnoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 ac os ydych yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru - byddwch yn cael hyd at £5,161 gan ddibynnu ar incwm eich cartref. Os ydych yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig, ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

## Grant Cymorth Arbennig

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Mae'r Grant Cymorth Arbennig ar gael i helpu talu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs fel llyfrau, offer, teithio a/neu ofal plant.

Gallwch wneud cais am Grant Cymorth Arbennig, er enghraifft, os ydych chi'n unig riant, os oes gennych chi anableddau penodol neu os ydych chi'n gymwys i gael budd-daliadau penodol. Ni fydd cael Grant Cymorth Arbennig yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliaeth y byddwch yn gallu ei gael.Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael Grant Cymorth Arbennig yn lle Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os dechreuoch ar eich cwrs ar neu wedi 1 Awst 2018, efallai y byddwch yn gymwys am Grant Cymorth Arbennig o hyd at £5,161 a Benthyciad Cynhaliaeth yn seiliedig ar incwm eich cartref a ble fyddwch chi'n astudio.

Os cychwynnoch ar eich cwrs cyfredol cyn 1 Awst 2018, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig o hyd at £5,161. Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael Grant Cymorth Arbennig **yn lle** Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Cefnogaeth Arbennig.

Bydd y cwestiynau yn Adran 9 yn eich helpu i gyfrifo a ydych chi'n gallu cael Grant Cymorth Arbennig.

Gallwch weld mwy o wybodaeth am fenthyciadau a grantiau trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Grant Ffioedd

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Os ydych yn cychwyn eich cwrs ar 1 Awst 2018 neu ar ôl hynny efallai y byddwch yn gymwys am Grant Ffioedd.

Mae swm y Grant Ffioedd sydd ar gael yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng yr uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu (£5,075) sydd ar gael a'r Ffioedd Dysgu a godir gan y brifysgol neu goleg.

Er enghraifft:

Ffioedd Dysgu a godir (hyd at £9,250) - Uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu (£5,075) = Hawl i Grant Ffioedd (hyd at £4,175)

Bydd eich Grant Ffioedd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn y flwyddyn academaidd.

Ni fyddwch yn gymwys i dderbyn y Grant Ffioedd hwn os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg preifat.

Os ydych yn cael Ildiad Ffioedd Dysgu, bydd y Grant Ffioedd a delir i'ch prifysgol neu goleg yn cael ei leihau gan faint yr ildiad ffioedd a gewch.

## Grant Oedolion Dibynnol

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Mae'r grant hwn yn ddibynnol ar eich incwm ac unrhyw incwm i'ch dibynyddion. Dim ond os ydych yn bodloni un o'r meini prawf canlynol allwch chi wneud cais am y grant hwn: rydych yn briod, mewn partneriaeth sifil, yn 25 oed neu'n hŷn ac yn byw gyda phartner o'r naill ryw neu'r llall, neu fod gennych oedolyn dibynnol.

Nid ydych yn gymwys i gael Grant Oedolion Dibynnol ar gyfer eich partner sy'n cyd-fyw â chi - os dechreuoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018 a'ch bod dros 25 oed ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs.

Dim ond ar gyfer un oedolyn dibynnol allwch chi wneud cais am y grant hwn; os oes gennych fwy nag un oedolyn dibynnol, dim ond un grant allwch chi ei gael.

# Adran 1 - cyllid sydd ar gael

Parhad

## Grant Gofal Plant

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu rhywfaint o'ch costau gofal plant, gan ddibynnu ar eich incwm ac unrhyw incwm i'ch dibynyddion, os oes gennych blant dibynnol dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, gan gynnwys plant dibynnol sydd wedi'u geni ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd – neu dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig – ac mae angen i chi drefnu gwasanaethau gofal plant ar eu cyfer. Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu costau gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ogystal ag yn ystod y tymor. Rhaid bod gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy yn gofalu am eich plant er mwyn i chi hawlio'r grant hwn. Ni allwch gael y grant hwn os ydych chi neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu'r Credyd Cynhwysol; rhaid i chi ddewis un neu'r llall.

Byddwn yn anfon gwybodaeth bellach atoch am y Grant Gofal Plant a ffurflenni pellach i'w llenwi ynghylch eich costau gofal plant wythnosol.

## Lwfans Dysgu i Rieni

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm chi ac incwm eich dibynyddion (gan gynnwys eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner). Ni fydd yn cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith neu adrannau budd-dal tai wrth iddynt gyfrifo'ch budd-daliadau eraill, felly nid oes yn rhaid i chi ddewis rhwng y Lwfans Dysgu i Rieni a budd-daliadau eraill.

## Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Gall hyn dalu am y costau ychwanegol i chi o ganlyniad i'ch anabledd sy'n gysylltiedig i'r cwrs, yn cynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl, anhawster dysgu penodol neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Mae hyn yn cynnwys offer arbennig, cynorthwy-ydd anfeddygol neu drefniadau teithio arbennig.

Os byddwch chi'n darparu tystiolaeth o'ch anabledd, bydd hyn yn ein helpu i brosesu eich cais yn gynt. Gallwch ddysgu rhagor am y dystiolaeth rydym ei hangen ar y cais am DSA. Os nad oes gennych chi'r dystiolaeth yma eto, anfonwch y ffurflen hon atom nawr ac anfon y dystiolaeth yn hwyrach. Byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am yr wybodaeth atodol rydym ei hangen

Os ydych yn astudio cwrs dysgu o bell neu fel arall yn astudio cwrs ond heb fod yn mynychu yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd, gallwch wneud cais am bob math o gyllid i fyfyrwyr (ac eithrio Grant Costau Teithio) yn yr un modd â phe byddech yn mynychu yn bersonol. Rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynwch ddangos na allwch fynychu prifysgol neu goleg yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd.

Os gwnaethoch chi ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018 ac rydych yn fyfyriwr dysgu o bell amser llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

Os ydych yn dymuno gwneud cais am DSA yn unig, dylech lenwi adrannau 2-5 o'r ffurflen hon a'i dychwelyd atom. Yna, byddwn yn anfon ffurflen arall atoch sy'n gofyn cwestiynau mwy penodol am eich anabledd/anhawster dysgu penodol. Neu, os hoffech anfon yr holl fanylion atom ar yr un pryd, dylech lenwi ffurflen DSA1 lawn yn hytrach na'r ffurflen hon. Gallwch lawrlwytho ffurflen gais DSA1 lawn trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Mae rhai prifysgolion a cholegau yn dewis cynnig bwrsariaethau neu ysgoloriaethau dewisol. Byddai'r swm a gynigir yn ôl eu disgresiwn nhw ac efallai na fyddai angen i chi fod yn gymwys am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru llawn na'r Grant Cymorth Arbennig llawn i fod yn gymwys am eu bwrsariaeth neu gynllun ysgoloriaeth.

### Grant Costau Teithio

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Os oes yn rhaid i chi astudio mewn prifysgol neu goleg y tu allan i'r DU am y rhan fwyaf o unrhyw dymor yn ystod y flwyddyn academaidd neu os oes yn rhaid i chi fynychu lle yn y DU i ffwrdd o'ch prif goleg neu brifysgol fel rhan o'ch hyfforddiant meddygol neu ddeintyddol, efallai y byddwch yn gallu hawlio help i dalu'ch costau teithio. Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu am yswiriant meddygol, costau fisa a brechiadau hefyd. Bydd y cymorth y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref.

Os oes yn rhaid i chi dalu costau teithio ychwanegol oherwydd eich bod yn anabl neu oherwydd bod gennych anhawster dysgu penodol, dylech wneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn lle'r grant hwn. Os oes gennych anabledd ond nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl, gallwch wneud cais am Grant Teithio o hyd.

Byddwn yn anfon ffurflenni pellach atoch i'w llenwi ynghylch eich costau teithio.

### Gwneud cais am gyllid myfyrwyr nad yw'n seiliedig ar incwm y cartrefi

Os byddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr nad yw'n seiliedig ar incwm eich cartref, yna gwnewch gais i gael eich ailasesu ar sail incwm eich cartref yn ddiweddarach yn y flwyddyn, efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o'r Benthyciad Cynhaliaeth a dalwyd i chi.

Mae hyn oherwydd y gallai cael eich asesu ar incwm eich cartref olygu y gallwch gael llai o Fenthyciad Cynhaliaeth a mwy o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael anhawster o hyd wrth ddewis pa fathau o gymorth ariannol yr hoffech wneud cais amdanynt, mae rhagor o wybodaeth am fenthyciadau a grantiau ar gael yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch archebu fersiwn Braille, fersiwn print mawr neu fersiwn sain o'r ffurflenni a'r canllawiau trwy anfon e-bost sy'n nodi'ch enw, eich cyfeiriad, eich cyfeirnod cwsmer, ynghyd â pha ffurflen yr ydych yn dymuno'i chael, ac ym mha ffurf, at: **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau mewn ffurfiau amgen y bydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

# Adran 2 - manylion personol

### Manylion personol

**a** Os ydych chi wedi cael 'caniatâd i aros' fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, gallwch nodi 'Dim' neu 'Heb Ddinasyddiaeth' yn y blwch Cenedligrwydd.

### Tystiolaeth hunaniaeth

**b1** Rhaid i'ch pasbort fod yn ddilys a heb ddod i ben pan fyddwn yn prosesu eich cais. Gall gymryd o leiaf 6 wythnos i brosesu eich cais.

**Os yw eich pasbort y Deyrnas Unedig wedi dod i ben, rhaid i chi anfon llungopi o'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu.**

Os yw'ch enw wedi newid o'r hyn sy'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu basbort, anfonwch y dystiolaeth berthnasol sy'n cadarnhau hyn gan roi manylion am unrhyw enwau blaenorol a oedd gennych.

**Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau atoch cyn gynted ag y bo modd.**

Os ydych wedi colli eich tystysgrif geni, gallwch gael tystysgrif newydd trwy gysylltu â'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol.

### Benthyciadau blaenorol

**c** Os ydych ar ei hôl hi gyda'r ad-daliadau ar gyfer benthyciad blaenorol, ni ddylech wneud cais am gyllid i fyfyrwyr nes i chi ddatrys y mater hwn.

Os ydych wedi cael unrhyw fenthyciadau ar ffurf morgais, ffoniwch eich perchennog dyled ar y rhif ffôn a ddangosir ar yr ohebiaeth fwyaf diweddar a gawsoch ganddynt. Os nad ydych yn gwybod pwy yw eich perchennog dyled, ffoniwch **0300 100 0632** am gyngor.

Os ydych wedi cael unrhyw fenthyciadau Ad-dalu Amodol ar Incwm (ICR) ac os nad ydych wedi gorffen eu talu, ffoniwch **0300 100 0611** am gyngor.

### Manylion cyswllt

**d** Anfonir yr holl ohebiaeth a gyhoeddwn i'r cyfeiriad hwn. Gallwch ddiweddaru'ch cyfeiriad ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i'ch cyfrif arlein neu trwy'n ffonio.

### Lluoedd Arfog

**f** Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell y tu allan i Gymru os ydych chi neu aelod o'ch teulu (yr ydych yn byw gyda nhw) yn gwasanaethu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- y Gwasanaeth Llyngesol (Y Llynges Brydeinig a'r Môr-filwyr Brenhinol);
- y Fyddin;
- yr Awyrlu Brenhinol;
- yr Heddlu Milwrol Brenhinol; neu
- y Gurkhas.

Bydd yr aelodau teuluol canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- cymar, partner sy'n cyd-fyw neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu tu allan i Gymru
- plentyn, llys-blentyn neu blentyn mabwysiadol dan 25 oed yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu tu allan i Gymru

## Adran 2 - manylion personol

Parhad

- rhiant dibynnol sy'n byw gyda;
  - phlentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - cymar, partner sy'n cyd-fyw neu bartner sifil y pmentyn sy'n byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn gwasanaethu tu allan i Gymru.

t **Os ydych chi yn y Lluoedd Arfog**

Bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'ch enw, eich cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) a'r wlad yr oeddech yn byw ynddi yn wreiddiol cyn i chi fod yn eich lleoliad cyfredol. Mae'n rhaid iddo hefyd gadarnhau'r wlad rydych chi wedi'i leoli ar hyn o bryd.

**Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog, bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'r canlynol:**

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw chi
- ei berthynas gyda chi
- lle maent yn seiliedig ar hyn o bryd
- os ydych chi wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ym mha wlad oedd yn byw ynddi'n wreiddiol cyn bod yn ei leoliad cyfredol
- os nad ydych chi fyth wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig fel arfer, y wlad yr ymunodd â'r Lluoedd Arfog ohoni.

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, stampio a dyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

### Statws perthynas

g Rydych yn 'byw gyda phartner' os ydych yn rhannu cartref gyda'ch partner, ond nid ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid oes gwahaniaeth os ydych yn bâr o'r un rhyw neu beidio.

t Os byddwch o dan 25 ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, a'ch bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, anfonwch eich tystysgrif briodas neu dystysgrif partneriaeth sifil wreiddiol gyda'r cais.

t Os ydych chi wedi **ysgaru**, **gwahanu**, neu os buoch mewn **partneriaeth sifil sydd wedi ei diddymu**, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, gorchymyn diddymiad, gorchymyn terfynol neu amodol, neu lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

t Os ydych yn **ŵr neu'n wraig weddw** neu os yw'ch **partner sifil wedi marw**, dylech anfon y dystysgrif farwolaeth wreiddiol.

**Bydd unrhyw ddogfennau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd atoch**.

t Os ydych dan 25 ac yn byw gyda phartner sydd wedi bod yn briod yn flaenorol, neu mewn partneriaeth sifil, gyda phartner gwahanol, bydd angen i chi anfon tystiolaeth i gadarnhau un o'r canlynol:

- rydych wedi ysgaru
- rydych wedi gwahanu
- mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu
- rydych yn weddw
- rydych yn bartner sifil goroesol

**a1 Ble ydych chi fel arfer yn byw pan nad ydych chi'n astudio?**

Os oes gennych chi gyfeiriad Swyddfa Bost Lluoedd Prydain, dylech roi hyn. Rydym yn defnyddio'r cyfeiriad yma i sicrhau eich bod yn cwblhau'r cais cywir am gyllid i fyfyrwyr.

**a2 Gwladolyn y DU**

Os ydych wedi darparu gwybodaeth am eich pasbort y DU neu dystysgrif eni fel rhan o adran 2, nid oes angen i chi anfon tystiolaeth bellach o'ch cenedligrwydd y DU.

t **Lluoedd Arfog**

Os ydych chi, eich rhiant neu rieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y Deyrnas Unedig ble roeddech yn byw fel arfer pan wnaethoch chi/nhw ymrestru.

Oni bai eich bod yn byw'n barhaol mewn ardal arall o'r Deyrnas Unedig. Gallwch dderbyn copïau ardystiedig o'ch tystiolaeth preswylio, wedi ei stampio â stamp eichuned. Dylech ddefnyddio eich cyfeiriad BFPO ar gyfer pob gohebiaeth.

**a3 Gwladolyn Gwyddelig**

t Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi anfon eich pasbort Gwyddelig neu'r UE.

Os oes gennych chi basbort y DU, dylech ddarparu eich manylion pasbort yn adran 2 gan nad oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth o'ch cenedligrwydd.

**a4 Aelod o deulu gwladolyn y DU**

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- ŵr, gwraig, partner sifil;
- disgynnydd uniongyrchol

i wladolyn y DU.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

t Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; **a**
- dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Ar gyfer plant gwladolion y DU, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.'

**a5 Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

t Os ateboch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn wladolyn yr UE, trwy anfon eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol yr UE.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswylydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth.

**a6 Plentyn gwladolyn y Swistir**

Rhaid bod gan eich rhiant neu lys riant statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid bod gennych chi statws preswylydd cyn-sefydlog ac yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

t Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i wladolyn Swisaidd trwy anfon pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom, fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiadau banc
- Slipiau cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/Datganiad morgais
- Bil cyfleustod
- Gohebiaeth Awdurdod Lleol
- Gohebiaeth adran o'r Llywodraeth

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswylydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich rhiant neu lys-riant, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn ei greu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

## a7 Gweithiwr yr AEE neu'r Swistir

Perthynas fy aelod o'r teulu i mi yw:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys riant; neu
- plentyn, llys blentyn
- aelod o'r teulu arall mewn llinell esgynnol neu ddisgynnol uniongyrchol - ddim ond yn berthnasol i aelodau'r teulu sy'n weithwyr AEE.

Diffinnir disgynnydd uniongyrchol fel plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres biolegol ac ati i unigolyn. Er enghraifft, rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Diffinnir perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol fel rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid biolegol ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

Mae perthnasau teuluol eraill wedi eu heithrio o'r diffiniadau uchod.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswylydd cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

t Os ydych chi'n aelod o'r teulu i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid i'r unigolyn hwnnw ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol. Fel prawf o'ch perthynas, rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni ac/neu dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd;
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion am ei incwm os yw'n hunangyflogedig;
- Llythyr gan gyflogwr sy'n cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio yn ystod y cyfnod pan fydd yn astudio;
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd, neu os yw wedi bod yn gweithio yn y DU yn flaenorol.

Os ydych chi'n rhiant neu berthynas llinell esgynnol uniongyrchol arall i'r gweithiwr, rhaid eich bod yn ddibynnol arnynt.

Ar gyfer plant gweithwyr o'r AEE, golyga'r term 'plentyn' rywun 'dan 21 oed; neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.' Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswylydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn ei greu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich aelod o'r teulu.

Nid oes angen i chi ddarparu cod rhannu os:

- ydych chi'n ddinesydd Gwyddelig; **neu**
- rydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn weithiwr y ffin.

### a8 Plentyn gweithiwr Twrcaidd

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

t Anfonwch eich llythyr gan y Swyddfa Gartref a Chaniatâd preswylio biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i weithiwr o Dwrci trwy anfon pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

### a9 Y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil;
- rhiant neu lys-riant

wedi cael caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), byddwch wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysblentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

t Mae angen i chi anfon tystiolaeth hunaniaeth a phrawf o'ch statws. Os ydych yn gwneud cais fel aelod o deulu rhywun sydd â chaniatâd, mae angen iddynt anfon prawf o'u statws a phrawf o'u perthynas â chi.

### Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol

Roedd y cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

### a10 Statws preswylydd sefydlog

Mae ‘statws preswylydd sefydlog’ yn golygu eich bod yn gallu byw yn y DU yn barhaol heb i’r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ynghylch hyd eich cyfnod yma.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw un o’r canlynol yn gymwys:

- rydych yn ddinesydd Prydeinig;
- rhoddwyd ‘caniatâd i aros am amser amhenodol’ i chi;
- mae gennych hawl i gartrefu yn y DU.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch hawl preswylio parhaol a materion eraill sy’n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref.

t Os nad oes gennych basbort Prydeinig neu Drwydded Preswylio Biometrig sy’n cadarnhau’ch statws mewnfudo, ond os oes gennych lythyr gan y Swyddfa Gartref sy’n ei gadarnhau, dylech anfon y llythyr hwn gyda’ch ffurflen gais.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni’n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

### a11.1 Caniatâd mynediad neu aros cyfyngedig dan Gynllun Wcráin

t I brofi eich bod wedi cael caniatâd yn y DU o dan Gynllun Wcráin mae angen i chi roi cod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted â phosibl ar ôl cynhyrchu’r cod rhannu.

Pan fyddwch chi’n rhoi’ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o’ch perthynas.

Os nad oes gennych god rhannu, dylech ddarparu tystiolaeth i gadarnhau eich statws mewnfudo. Anfonwch eich Trwydded Breswylio Fiometrig atom. Os nad oes gennych Drwydded Preswylio Fiometrig, dylech anfon eich pasbort gyda phortread yn cadarnhau eich caniatâd neu’ch dogfen ‘caniatâd i deithio’.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni’n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig neu ddogfen ‘caniatâd i deithio’, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

### a11.2 Aelod o deulu gwladolyn Wcráin

t Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi cael caniatâd yn y Deyrnas Unedig o dan Gynllun Wcráin bydd angen i chi ddarparu eu cod rhannu a dyddiad geni neu anfon tystiolaeth yn cadarnhau eu statws mewnfudo. Bydd angen i chi hefyd anfon prawf o’ch perthynas â nhw.

Mae’n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu’n bartner sifil i’r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi’n blentyn neu’n llysblentyn i’r person sydd â chaniatâd, mae’n rhaid mai chi

oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

### a12 Statws ffoadur

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- rhiant/rhieni, llys riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y DU dan amodau Confensiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig 1951 ac os dyfarnwyd statws ffoadur i chi neu nhw, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr atoch chi neu nhw, a dogfen statws mewnfudo sy'n cadarnhau hyn.

t Dylech anfon llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo, fel arfer pasbort neu Drwydded Preswylio Biometrig, yr unigolyn sy'n meddu ar statws ffoadur. Dylech anfon tystiolaeth o'ch perthynas â'r unigolyn sy'n meddu ar statws ffoadur hefyd, os nad chi yw'r unigolyn hwnnw.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn ffoadur, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhieni gyflwyno eu cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

**Dyddiad dod i ben**
Os rhoddwyd statws ffoadur heb ddyddiad dod i ben i chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- rhiant/rhieni, llys riant

dylech nodi Amh (amherthnasol) yn y bocs dyddiad dod i ben.

### a13 Person heb Wladwriaeth

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi cael 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, byddwch chi neu nhw wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

t Anfonwch lythyr y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn y rhoddwyd 'caniatâd i aros' iddo fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant eu cais i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig y cewch eich ystyried fel 'plentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

## a14&15 Caniatâd mynediad neu aros

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn

- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y DU ar sail bywyd teuluol neu breifat; **neu**
- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu bersonol ar sail Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR); **neu**
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus; **neu**
- Caniatâd yn ôl Disgresiwn ble na wnaethpwyd cais am loches; **neu**
- Diogelwch Dyngarol

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

t Dylech anfon llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo, fel arfer pasbort neu Drwydded Preswylio Biometrig, yr unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt. Dylech anfon tystiolaeth o'ch perthynas â'r unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt hefyd, os nad chi yw'r unigolyn hwnnw.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn unigolyn y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, ni fyddwch yn cael eich ystyried yn 'blentyn' oni bai eich bod dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhieni gyflwyno eu cais i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun y rhoddwyd caniatâd mynediad neu aros iddynt, rhaid eich bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil iddynt ar yr adeg y cyflwynwyd eu cais am loches.

## a16 Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

Os ydych wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol rhywun sydd, naill ai byddwch chi neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan y Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

t Anfonwch lythyr y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael 'caniatâd i aros' dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r unigolyn os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd wedi cael 'caniatâd i aros'

yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

### a17 Caniatâd Calais

Os ydych wedi cael caniatâd Calais yn y DU, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol i rywun sydd wedi cael dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU, naill ai y byddwch chi neu nhw wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

t Anfonwch Hawlen Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd Calais. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd Calais os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd Calais, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

### a18 Dioddefwr trais neu gam-drin domestig

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

t Anfonwch y llythyr gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswylio Biometrig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

### a19 Partner mewn profedigaeth

Os ydych chi neu'ch rhiant/llys-riant wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth, byddwch chi, neu eich rhiant, wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau hyn.

t Anfonwch y llythyr gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswylio Biometrig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' fel person sydd wedi bod yn bartner mewn profedigaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig fel bartner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**!** Os rhoddoch ateb negyddol i'r holl gwestiynau yn yr adran hon, nid ydych yn gymwys i dderbyn cyllid gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Efallai y byddwch yn dal i allu cael cyllid Ffioedd Dysgu yn unig os ydych chi'n wladolyn o'r UE/AEE neu'n wladolyn Gwyddelig. Am ragor o wybodaeth ar gyllid Cefnogaeth Ffioedd yn unig, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/**

## b2&3 Statws preswylio

Dylech ddarparu manylion eich cyfeiriad o'r pwynt y rhoddwyd eich statws neu hyd at uchafswm o dair blynedd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd os rhoddwyd eich statws cyn hynny.

| Dyddiad cychwyn astudio rhwng | Dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Awst a 31 Rhagfyr yn gynhwysol | 1 Medi |
| 1 Ionawr a 31 Mawrth yn gynhwysol | 1 Ionawr |
| 1 Ebrill a 30 Mehefin yn gynhwysol | 1 Ebrill |
| 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf yn gynhwysol | 1 Gorffennaf |

## b4 Statws preswylio

Mae angen y wybodaeth hon arnom oherwydd gallai hanes preswylio eich aelod o'ch teulu effeithio ar eich cymhwysedd i gael cyllid i fyfyrwyr. Sicrhewch fod y person hwn yn gwybod eich bod yn rhoi ei fanylion i ni.

Os oeddech o dan 18 oed yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, mae angen y wybodaeth hon arnom gan ein bod yn cymryd yn ganiataol eich bod yn byw yn yr un lle â'ch rhieni. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyliad oedd hwn.

Os oes gennych briod neu bartner, rydym yn cymryd eich bod wedi bod yn byw yn yr un lle â nhw. Os oeddent yn byw neu'n gweithio y tu allan i:

- y Deyrnas Unedig a'i Hynysoedd, neu
- yn achos gwladolyn o'r UE, yr AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r DU, Gibraltar, AEE neu'r Swistir

yn y tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos mai seibiant dros dro yn y preswyliad oedd hwn.

# Adran 4 - am eich cwrs a'ch prifysgol neu goleg

### Manylion y cwrs

Ni fyddwch yn gallu ymgeisio am gwrs a ariennir gan y GIG yn cychwyn ar neu wedi 1 Awst 2018 mewn prifysgol neu goleg yng Ngogledd Iwerddon.

b2 Mae Mynediad Uniongyrchol yn golygu dod i mewn i raglen cwrs yn uniongyrchol ar flwyddyn sy'n fwy na blwyddyn gyntaf y cwrs.

c Os na ellir cadarnhau manylion y cwrs a roddwch i ni eto, efallai y bydd eich cyllid i fyfyrwyr yn cael ei oedi.

Dylech roi cymaint o fanylion ynghylch eich prifysgol neu goleg a chwrs â phosibl, er enghraifft, enw llawn y brifysgol/coleg, enw llawn y cwrs a chod UCAS y cwrs.

Os nad ydych yn siŵr beth fydd swm y ffioedd dysgu a godir, dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg a gofyn iddynt gadarnhau hyn.

### Math o gwrs

d **Israddedig amser llawn**

Ar gyfer y cyrsiau hyn, byddwch yn mynychu prifysgol neu goleg am y rhan fwyaf o'r wythnos ac am y rhan fwyaf o wythnosau yn ystod y flwyddyn (ac eithrio penwythnosau a'r gwyliau arferol). Rhaid i chi fynychu'r cwrs am 24 wythnos o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd, oni bai eich bod ar flwyddyn academaidd olaf y cwrs ac os felly, rhaid i chi fynychu am wyth wythnos o leiaf. Yn ogystal, rhaid i'r cwrs bara am un flwyddyn academaidd o leiaf.

Hyd yn oed os bydd eich prifysgol neu goleg wedi gwneud trefniadau i chi ddilyn y cwrs heb i chi orfod mynychu, ystyrir eich bod yn mynychu'ch cwrs o hyd.

t **Dysgu o bell amser llawn**

Os dechreuodd eich cwrs cyn 1 Awst 2018 a'ch bod yn astudio ar gwrs dysgu o bell amser llawn am reswm yn ymwneud ag anabledd, rhaid i chi anfon tystiolaeth wedi llungopïo atom sy'n dangos yn glir nad ydych yn gallu mynychu'r brifysgol neu goleg yn bersonol am reswm yn ymwneud â'ch anabledd.

**Gradd sylfaen amser llawn**

Mae graddau sylfaen yn gymwysterau addysg uwch sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac a gynlluniwyd i roi'r sgiliau angenrheidiol i chi ar lefel technegydd uwch ac ar lefel broffesiynol berthnasol. Maent wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg er mwyn bod yn addas i wahanol sefyllfaoedd, ac mae modd i chi gwblhau graddau sylfaen mewn dwy flynedd os byddwch yn eu hastudio fel cwrs amser llawn.

**Cwrs amser llawn sy'n cynnwys lleoliad (cwrs 'rhyngosod')**

Mae'r math hwn o gwrs yn cynnwys addysg amser llawn yn y brifysgol neu'r coleg, a chyfnodau ar leoliad gwaith neu leoliad diwydiannol.

### e2 Manylion y tymor

Byddwn yn anfon ffurflenni ychwanegol atoch i'w cwblhau gyda'ch astudiaeth dramor a manylion teithio.

Dylech ddewis 'lleoliad gwaith' os byddwch yn gweithio yn y DU neu dramor fel rhan o'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd hon neu os yw'ch lleoliad yn rhan o gwrs rhyngosod.

f2 Os ydych yn gwneud cais am gyllid gan Gynllun Turing neu Taith, ni allwch gael taliad am yr un costau teithio trwy Grant Teithio CMC a Chynllun Turing neu Taith.

### g Manylion lleoliad

Os nad ydych yn gwybod ble fydd eich lleoliad eto, dylech roi gwybod i ni cyn gynted ag sy'n bosibl.

Os yw'ch lleoliad yn lleoliad di-dâl nas rhestrwyd, dim ond Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfradd ar raddfa is y bydd modd i chi ei hawlio.

### Astudio blaenorol

**a3** Os na wnaethoch orffen eich cwrs am resymau personol anorfod (nad ydynt yn cynnwys rhesymau sy'n ymwneud â pherfformiad academaidd yn unig), rhaid i chi nodi'r manylion llawn yn yr adran hon, gan anfon y dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol i ategu'r rhesymau a nodwyd gennych.

**c** Os ydych yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru, dylech ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn oherwydd bod hwn yn fwrsariaeth ar wahân i'r rhai a gynigir gan y GIG neu'r Adran Iechyd.

Os ydych chi'n astudio ar gwrs Parafeddyg mewn prifysgol/coleg yn Lloegr ac yn gymwys i ymgeisio am gefnogaeth ffioedd dysgu ac/neu gostau byw gan eich ymddiriedolaeth ambiwlans/iechyd lleol, dylech roi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn.

Os ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth gofal iechyd GIG Cymru, gallwch gael Benthyciad Cynhaliaeth heb brawf modd.

Os ydych yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth **nad yw'n seiliedig ar asesiad incwm** – **ni** fyddwch yn gymwys i gael unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr. Yr unig eithriad fyddai os ydych yn fyfyriwr ar secondiad sy'n astudio cwrs sy'n gysylltiedig ag iechyd ac os ydych wedi cael gwybod na allwch wneud cais am unrhyw fwrsariaeth, ar sail asesiad incwm neu beidio.

Rhaid i chi anfon cadarnhad o'r ffaith eich bod yn gymwys i gael bwrsariaeth y GIG i Gyllid Myfyrwyr Cymru. Os nad oes gennych y dystiolaeth hon nawr, ni ddylech aros nes i chi ei chael cyn cyflwyno'ch cais am gyllid i fyfyrwyr. Dylech anfon y dystiolaeth hon i Gyllid Myfyrwyr Cymru cyn gynted ag y byddwch yn ei chael.

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth, dylech gysylltu ag Uned Ddyfarniadau Myfyrwyr Cymru.

# Adran cais am fenthyciad

**Rhif Yswiriant Gwladol**

Os na fyddwch yn nodi eich rhif Yswiriant Gwladol, ni fyddwch yn cael eich benthyciad(au) a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys.

Nodir eich rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- eich cerdyn neu lythyr rhif Yswiriant Gwladol;
- slip cyflog;
- dogfen treth incwm fel P45 neu P60.

Os nad ydych erioed wedi cael rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y bocs Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn cael rhif Yswiriant Gwladol.

**Benthyciad Cynhaliaeth**

Telir y benthyciad hwn mewn rhandaliadau yn uniongyrchol i chi, a'i ddiben yw helpu i dalu costau byw personol trwy gydol y flwyddyn academaidd.

Os ydych yn cychwyn cwrs dysgu o bell llawn amser ar neu wedi 1 Awst 2018 (am resymau nad ydynt yn ymwneud ag anabledd) dim ond am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd y gallwch ymgeisio.

Os byddwch yn cychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018, mae'r ffordd y byddwn yn cyfrifo'ch Benthyciad Cynhaliaeth wedi newid. Byddwn yn cyfrifo swm y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallwch ei gael yn gyntaf, yna dyfarnir gweddill eich cyllid i fyfyrwyr fel Benthyciad Cynhaliaeth. Os byddwch yn gofyn am fwy o Fenthyciad Cynhaliaeth nag yr ydych chi'n gymwys i'w gael, byddwn yn dyfarnu'r swm is i chi.

**Benthyciad Ffioedd Dysgu**

Bydd y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn y flwyddyn academaidd. Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffioedd Dysgu o ddiwrnod cyntaf pob tymor ac nid y dyddiad pan delir y rhandaliad i'ch prifysgol neu goleg.

| Dyddiad atebolrwydd | % o'r Benthyciad Ffioedd Dysgu y byddwch yn atebol amdano |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf Tymor 1 | 25% |
| Diwrnod cyntaf Tymor 2 | 50% |
| Diwrnod cyntaf Tymor 3 | 100% |

Os nad ydych yn siŵr pryd mae'ch tymor yn cychwyn, cysylltwch â'ch prifysgol neu goleg.

Gwneir pob taliad wedi i ni dderbyn cadarnhad gan eich prifysgol neu goleg eich bod yn mynychu ar ddechrau pob tymor. Codir llog o'r diwrnod pan fyddwch yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu i'ch prifysgol neu goleg.

Os ydych chi'n cychwyn blwyddyn gyntaf cwrs mynediad rhaglen feddygol neu ddeintyddol i raddedigion, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £5,785 (os codir ffi o £9,000). Os yw'r ffi a godir gan eich prifysgol/coleg yn fwy na £9,000, bydd y GIG yn talu am y ffi atodol. Fodd bynnag, bydd angen i chi dalu'r £3,465 cyntaf o'r swm ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.

**Gwneud cais am fenthyciad yn nes ymlaen neu newid y swm y gofynnwyd amdano**

Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny yn y cyfnod a ganiateir. Fel arfer, y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymgeisio yw naw mis o ddechrau'ch blwyddyn academaidd.

Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, neu newid y swm y gwnaethoch ofyn amdano yn wreiddiol, trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

**Amodau a Thelerau**

Os byddwch yn cael benthyciad, bydd contract cyfreithiol rhwymol rhyngoch chi a Gweinidogion Cymru. Mae'r adran cais am fenthyciad, gan gynnwys y datganiadau sy'n ymddangos ar ôl adran 11 yn ffurflen gais PN1, yn rhan annatod o'ch contract gyda Gweinidogion Cymru. Gellir gweld amodau ychwanegol y contract yn y Rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, neu ddeddfwriaeth olynol.

**a2** Os ydych dan 25 ac yn byw gyda phartner sydd wedi bod yn briod yn flaenorol, neu mewn partneriaeth sifil, gyda phartner gwahanol, bydd angen i chi anfon tystiolaeth i gadarnhau un o'r canlynol:

- rydych wedi ysgaru
- rydych wedi gwahanu
- mae eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu
- rydych yn weddw
- rydych yn bartner sifil goroesol

**a3** Mae gofalu am rywun dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn ac mae'r plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag fo'ch perthynas â'r plentyn.

t Anfonwch dystysgrifau geni gwreiddiol y plentyn/plant a thystiolaeth eich bod yn gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn cael Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol.

**b** **Ymddieithrio anghymodlon**

Fel arfer, dim ond os nad ydych wedi cael cyswllt gyda'ch rhieni am o leiaf flwyddyn cyn dechrau'ch blwyddyn academaidd yr ystyrir eich bod wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrthynt.

Ni fydd modd i chi honni eich bod wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrthynt oherwydd:

- nad ydych ar delerau da gyda'ch rhieni;
- nad ydych yn byw gyda nhw;
- nad yw'ch rhieni yn dymuno rhoi manylion am eu hincwm; neu
- bod eich rhieni yn dewis peidio rhoi cymorth ariannol i chi.

Am ragor o help a gwybodaeth ar ymgeisio fel myfyriwr wedi dieithrio, ewch i wefan 'Standalone'.

**Yng ngofal cyfreithiol awdurdod lleol**

**Os byddwch yn cychwyn ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018** – os ydych wedi bod yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol, neu dan orchymyn gwarchodaeth arbennig ar unrhyw adeg rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs) ond wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni, byddwch yn dal i gael eich ystyried yn annibynnol.

! Dim ond os ydych chi'n ymgeisio am unrhyw un o'r grantiau yn adran 10 y dylech anfon tystiolaeth i incwm eich cartref atom.

**Os cychwynnoch eich cwrs cyn 1 Awst 2018** – os ydych chi wedi bod dan ofal cyfreithiol Awdurdod Lleol ar unrhyw adeg ond rydych chi wedi bod yn ôl dan ofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg ers hynny, ni ystyrir eich bod yn annibynnol.

Anfonwch lythyr wedi ei lofnodi a'i ddyddio gan eich Awdurdod Lleol neu unigolyn proffesiynol sydd wedi eich adnabod ers o leiaf 12 mis.

**c** Er mwyn cael eich ystyried fel unigolyn hunangynhaliol, rhaid eich bod wedi bod yn talu eich costau byw eich hun am 3 blynedd o leiaf o unrhyw un o'r ffynonellau isod. Nid oes yn rhaid iddynt fod yn 3 blynedd olynol:

- incwm cyflogaeth;
- Budd-daliadau;
- Ysgoloriaethau ymchwil y wladwriaeth;
- Ysgoloriaethau, arddangosfeydd a bwrsariaethau.

Ni ystyrir eich bod yn hunangynhaliol os ydych yn talu eich costau byw gan ddefnyddio arian yr ydych yn ei gael gan riant.

t Dylech ddarparu tystiolaeth eich bod wedi bod yn cynnal eich hun yn ariannol fel ffurflenni P60 neu wybodaeth am fudd-daliadau.

Mae datganiadau banc a sipiau cyflog hefyd yn cael eu hystyried i fod yn dystiolaeth dderbyniol. Caiff tystiolaeth ei adolygu ar sail fesul achos.

! Os ydych wedi cael 'caniatâd i aros' yn y Deyrnas Unedig dan adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, neu os ydych yn blentyn dibynnol i rywun sydd wedi ei gael, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth o annibyniaeth.

# Adran 8 - manylion ariannol y myfyriwr

### Incwm heb ei ennill

**a** Efallai y gofynnir i chi gadarnhau unrhyw incwm a amcangyfrifir yn nes ymlaen.

Os yw'ch incwm go iawn yn wahanol i'ch incwm a amcangyfrifir, byddwn yn ailasesu'ch hawl i gael cyllid i fyfyrwyr. Gallai hyn newid lefel y cymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Wrth gyfrifo'ch incwm trethadwy nas enillwyd, ni ddylech gynnwys:

- enillion o waith amser llawn neu waith rhan-amser megis gwaith yn ystod y gwyliau neu waith yr ydych yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant y gallech fod yn eu cael;
- taliadau yr ydych yn eu cael gan eich rhieni dan gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael am eich plant. Dylid cynnwys y taliadau cynhaliaeth hyn fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 8d;
- Bwrsariaethau Hyfforddiant Athrawon;
- cymorthdaliadau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn neu bensiynau anabledd neu i'r methedig;
- ISAs.

### Taliadau gan gyflogwr

**b** **Dim ond** os ydych yn cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs y dylech nodi swm yma. Os mai dyma'ch sefyllfa, dim ond cyflog y byddwch yn ei gael gan y cyflogwr hwnnw am ddiwrnodau pan fyddwch yn mynychu'ch cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth i wneud hynny, y dylech ei nodi. Gallai unrhyw enillion o gyflog a nodir yma effeithio ar eich hawl i gael cyllid i fyfyrwyr.

**Ni ddylech** nodi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyriwr sy'n gweithio tra'r ydych yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs.

### Plant dibynnol

**d** Rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm y mae'r plentyn yn ei gael o weithio, o log ar gynilion, o fuddsoddiadau a thaliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm **nhw** yn y cwestiwn hwn.

**Peidiwch â chynnwys** incwm o ffynonellau fel budd-dal plant, credyd treth plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol, Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth neu fân symiau o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol.

Os bydd incwm eich plentyn dibynnol o leiaf 15% yn llai na'r hyn yr oedd ym mlwyddyn dreth 2022-23, gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn golygu y byddem yn defnyddio ei incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 yn hytrach na'i incwm gwirioneddol ar gyfer 2022-23 wrth gyfrifo eich hawl am grant. Os hoffech gael eich asesu gan ddefnyddio incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25, defnyddiwch y tudalennau nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen i roi manylion i ni.

t Rhaid i chi anfon tystysgrif(au) geni gwreiddiol eich plentyn/plant a chopïau o dystiolaeth yn dangos incwm y plentyn o bob ffynhonnell ar ôl cyfraniadau treth a nawdd cymdeithasol ym mlwyddyn dreth 2022-23.

# Adran 9 - Cymorth Arbennig

Cewch eich asesu am Cymorth Arbennig unwaith y byddwn yn cael tystiolaeth yn dangos eich bod yn gymwys. Os nad oes gennych y dystiolaeth nawr, dylech anfon eich cais beth bynnag ac anfon y dystiolaeth cyn gynted ag y bo modd.

Am ragor o wybodaeth am Gymorth Arbennig, ewch i **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Gallwch hefyd ymgeisio am Gymorth Arbennig os ydych chi’n unig riant maeth i blentyn neu berson ifanc dan 20 sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch.

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) tystiolaeth angenrheidiol |
|---|---|
| Rydych yn rhiant unigol (neu’n rhiant maeth unigol) plentyn neu berson ifanc o dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn o dan lefel addysg uwch | • Tystysgrif geni gwreiddiol y plentyn/plant neu lythyr yn cadarnhau gofal maeth, **a**<br>• Llythyr budd-dal plant diweddaraf, Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth neu lythyr Dyfarniad Credyd Cynhwysol. |
| Mae gennych bartner sydd hefyd yn fyfyriwr amser llawn, ac mae un neu’r ddau ohonoch yn gofalu am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sydd mewn addysg amser llawn islaw lefel addysg uwch | • Tystysgrif geni gwreiddiol y plentyn/plant, **a**<br>• Llythyr Budd-dal Plant diweddaraf, Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth neu lythyr Dyfarniad Credyd Cynhwysol, **a**<br>• Llythyr yn cadarnhau bod eich partner yn fyfyriwr os nad yw wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr. |
| Mae gennych anabledd ac yn gymwys i gael Premiwm Anabled neu Bremiwm Anabledd Difrifol | • Tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael<br>• Premiwm Anabledd **neu**<br>• Premiwm Anabledd Difrifol, **neu**<br>• Tystiolaeth i ddangos eich bod yn gymwys i gael **un** o’r budd-daliadau canlynol:<br>Lwfans Byw i’r Anabl<br>Credyd Treth Person Anabl<br>Lwfans Gweini<br>Lwfans Gweini Cyson<br>Taliad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel<br>Lwfans Anabledd Difrifol<br>Budd-dal Analluogrwydd |
| Rydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl | • Tystiolaeth feddygol o’ch anabledd os nad ydych wedi gwneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. |
| Rydych wedi’ch trin fel pe na allech weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos o leiaf | • Llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau eich bod yn cael budd-daliadau analluogrwydd hirdymor, **neu**<br>• Lythyr gan eich meddyg yn cadarnhau na allwch weithio. |
| Mae gennych anabledd ac yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy’n gysylltiedig ag incwm | • Llythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith i gadarnhau eich bod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) oherwydd anabledd, **neu**<br>• Llythyr hawl am ESA a phrawf o’ch tystiolaeth, er enghraifft llythyr gan eich meddyg. |

# Adran 9 - Cymorth Arbennig

Parhad

| Categori Cymorth Arbennig | Eitem(au) tystiolaeth angenrheidiol |
|---|---|
| Rydych yn aros i fynd yn ôl ar gwrs ar ôl salwch neu gyfrifoldebau gofalu | • Llythyr gan y brifysgol neu'r coleg i gadarnhau bod gohiriad eich cwrs wedi'i awdurdodi, **a**<br>• Tystiolaeth o salwch neu angen i ofalu am unigolyn arall. |
| Rydych yn 60 oed neu'n hŷn | • Nid oes angen i chi anfon rhagor o dystiolaeth. Bydd yr wybodaeth neu'r dystiolaeth rydych yn ei darparu i gadarnhau pwy ydych chi yn profi eich bod yn 60 oed neu'n hŷn. |
| Mae gennych hawl i gael Budd-dal Tai neu elfen tai'r Credyd Cynhwysol | • Llungopi o lythyr hawl dyddiedig wedi dyddiad cychwyn eich cwrs, yn cadarnhau eich bod yn gymwys i gael Budd-dal Tai neu elfen tai'r Credyd Cynhwysol tra'ch bod yn astudio. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)<br>**neu**<br>Mae gennych hawl i gael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) | • Tystiolaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gadarnhau bod gennych hawl i gael un o'r taliadau hyn. |
| Mae gennych hawl i gael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP) | • Tystiolaeth gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr (SPVA) **neu** DWP i gadarnhau bod gennych hawl i gael y taliad hwn. |

# Adran 10 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

**b1** Am wybodaeth ynghylch rhai sy'n gadael gofal, gweler 7b yn y nodiadau hyn.

**c** Defnyddir y wybodaeth hon i weithio allan os yw'ch plant yn ddibynnol ariannol arnoch chi neu'ch partner yn bennaf yn ystod y flwyddyn academaidd 2024/25.

**d** Os ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu os ydych yn derbyn Grant Gofal Plant yn hytrach na'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol, Lwfans Gofal Plant gan y GIG neu Ofal Plant di-dreth gan HMRC, byddwch yn derbyn ffurflen arall i roi eich costau gofal plant amcangyfrifiedig. Gallwch gael gwybodaeth am bob agwedd o'r Credyd Treth Gwaith a'r Credyd Cynhwysol yn: **www.gov.uk**

# Adran 10 - Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

Parhad

**e4** Dylech anfon copïau o dystiolaeth i ddangos unrhyw incwm trethadwy a dderbynnir gan eich oedolyn dibynnol. Er enghraifft, P60, slip cyflog misol 12/wythnos 52 neu lythyr gan gyflogwr i gadarnhau enillion.

Os bydd incwm eich oedolyn dibynnol o leiaf 15% yn llai na'r hyn yr oedd ym mlwyddyn dreth 2022-23, gallwch wneud cais am asesiad incwm y flwyddyn gyfredol. Mae hyn yn golygu y byddem yn defnyddio ei incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 yn hytrach na'i incwm gwirioneddol ar gyfer 2022-23 wrth gyfrifo eich hawl am grant. Os hoffech gael eich asesu gan ddefnyddio incwm disgwyliedig ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25, defnyddiwch y tudalennau nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen i roi manylion i ni.

**f** Yr ymrwymiadau ariannol i'w cynnwys fyddai polisïau yswiriant megis yswiriant meddygol neu yswiriant y cartref, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer dibynnydd. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o unrhyw ymrwymiadau y byddwch yn eu datgan.

# Adran 11 - am eich teulu

## Myfyrwyr dibynnol

Os ydych yn fyfyriwr dibynnol, bydd yr aelodau canlynol yn y teulu yn cyfrif:

- Eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi;
- Eich rhiant a phartner eich rhiant, os oes un ganddynt.

Diffinnir partner eich rhiant fel a ganlyn:

- Eich llysfam neu'ch llystad;
- Partner eich rhiant o'r rhyw arall **neu** o'r un rhyw os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

## Myfyrwyr annibynnol

At ddibenion asesu incwm, os ydych yn fyfyriwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes un gennych, fydd yn cyfrif.

Diffinnir eich partner fel a ganlyn:

- Eich gŵr, gwraig neu bartner sifil;
- Eich partner o'r rhyw arall neu o'r un rhyw, os ydych yn 25 oed neu'n hŷn ac os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil;
- Eich partner rhyw arall neu'r un rhyw, os ydych chi dan 25 ar ddiwrnod 1af blwyddyn academaidd 1af eich cwrs a'ch bod yn byw gyda'ch partner fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil, a'ch bod wedi dechrau eich cwrs **ar neu wedi 1af Awst 2018**.

**Os nad oes gennych bartner yn unol â'r diffiniad uchod, dim ond eich incwm chi y byddwn yn ei asesu.**

**b** Os yw'ch rhiant yr ydych yn byw gyda nhw fel arfer wedi ailbriodi – ticiwch y bocs 'yn briod'

Os ydych chi wedi ysgaru, gwahanu, neu os buoch mewn partneriaeth sifil sydd wedi ei diddymu, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, gorchymyn diddymiad, gorchymyn terfynol neu amodol, neu lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

## Amodau a Thelerau

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai ei llofnodi ar eich rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

### Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Gyfyngedig (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

### Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi hysbysu'r SLC o unrhyw newid i'ch amgylchiadau, a allai effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau i fyfyrwyr fyddai:

- os ydych yn absennol o'r cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;
- os ydych yn absennol am unrhyw reswm arall;
- os byddwch yn gadael y cwrs, yn rhoi'r gorau i'r cwrs neu'n cael eich gwahardd o'r cwrs;
- os byddwch yn stopio mynychu'r cwrs ac os nad ydych yn bwriadu, neu os na chaniateir i chi ddychwelyd am weddill y flwyddyn academaidd;
- os byddwch yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg, neu i gwrs mewn prifysgol neu goleg gwahanol;
- os byddwch yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser;
- os byddwch yn ailadrodd rhan o flwyddyn eich cwrs, neu flwyddyn gyfan o'ch cwrs; neu
- os bydd dyddiad dechrau neu orffen eich cwrs yn newid.

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad yw ar-lein. Mewngofnodwch i'ch cyfrif trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**. Os bydd unrhyw fanylion eich cwrs yn newid neu eich bod yn gohirio, tynnu'n ôl neu'n trosglwyddo, bydd angen i chi siarad â'ch prifysgol neu goleg a fydd yn rhoi gwybod i ni.

# Adran 12 - manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23 i rieni a phartneriaid

**Beth fydd yn digwydd os yw incwm fy nghartref wedi newid ers blwyddyn dreth 2022-23?**
Os bydd cyfanswm incwm eich cartref (cyn treth) ar gyfer blwyddyn dreth 2024-25 o leiaf 15% yn llai nag yr oedd ym mlwyddyn dreth 2022-23, llenwch yr adran hon o hyd yn ogystal â chwblhau 'Ffurflen Asesu Incwm y Flwyddyn Gyfredol'.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a'i dychwelyd gyda'r cais hwn.

! Noder na ellir cyflawni asesiad incwm blwyddyn bresennol oni bai eich bod yn darparu'ch manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

## Rhan A – Manylion personol

### Statws Priodasol

Anfonwch gopi o un o'r eitemau tystiolaeth canlynol. Os ydym eisoes wedi derbyn tystiolaeth a anfonwyd gennych i gefnogi cais blaenorol ar gyfer y myfyriwr hwn nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau pellach. Dim ond os nad ydych wedi gwneud hynny o'r blaen neu os yw eich amgylchiadau wedi newid y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth.

- Archddyfarniad absoliwt
- Archddyfarniad nisi
- Gorchymyn diddymu
- Bil treth gyngor diweddaraf yn dangos gostyngiad deiliadaeth sengl o 25%
- Llythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich statws
- Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth
- Gorchymyn terfynol neu amodol

## Rhan B – Rhannu data a chi

Byddwn yn gwirio eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) gyda Chyllid a Thollau EF. Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol yn y Deyrnas Unedig.

Os nad oes gennych rif YG rhaid i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau ariannol.

Os nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23, mae angen i chi ddarparu:

- llythyr oddi wrthych yn cadarnhau nad oedd gennych unrhyw incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23; neu
- llythyr gan unrhyw drydydd parti a oedd yn eich cefnogi yn ystod y flwyddyn dreth (fel partner)

Rhaid i'r llythyr gael ei lofnodi a'i ddyddio er mwyn iddo gael ei dderbyn.

## Rhan C – Incwm arall ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

Rhowch wybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23. Fel arfer, dyma'r flwyddyn sy'n dod i ben 5 Ebrill 2023, ond gall fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu fusnes flwyddyn dreth nad yw'n dod i ben ym mis Ebrill.

**C1 Incwm yn y DU nad yw CThEF yn gwybod amdano**

Efallai eich bod wedi ennill o dan y trothwy i ddatgan yr incwm hwn i CThEF, ond bydd hwn yn dal i gael ei ddefnyddio i gyfrifo hawl y myfyriwr(myfyrwyr).

## Rhan D – Incwm tramor ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23

**C1 Incwm o dramor nad ydych wedi dweud wrth CThEF amdano eisoes**

Dim ond am unrhyw incwm a enillwyd dramor nad ydych eisoes wedi'i ddatgelu i CThEF fel rhan o'ch hunanasesiad y mae'n rhaid i chi ddweud wrthym.

**a Cyfanswm incwm o gyflog/hunangyflogaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau treth o'r wlad berthnasol yn cadarnhau swm yr incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

**b Cyfanswm incwm o fudd-daliadau'r wladwriaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau budd-daliadau, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y budd-dal(iadau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

**c Cyfanswm incwm o bensiwn (neu bensiynau) galwedigaethol, preifat neu wladwriaeth**

Bydd angen i chi ddarparu copïau o'ch dogfennau pensiwn, o'r wlad berthnasol, yn cadarnhau cyfanswm y pensiwn(pensiynau) trethadwy a gawsoch ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23.

## Rhan E – Didyniadau incwm

**Os na wnaethoch dalu unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Nid oes angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

**Os taloch unrhyw gyfraniadau pensiwn preifat neu gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**

Mae'r dystiolaeth y mae angen i chi ei darparu i'w gweld yn y tabl isod.

| Math didyniad | Angen tystiolaeth |
|---|---|
| Cyfraniad pensiwn preifat | Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu Ddatganiad gan Ddarparwr Pensiwn |
| Cyfraniad gwirfoddol ychwanegol (AVC) | Cadarnhad gan DWP o Swm y Pensiwn a Dalwyd, Ffurflen Dreth (pob tudalen) neu P60 |

## Rhan F – Eich dibynyddion

### Blwyddyn academaidd

Dylech ddarparu incwm y plentyn dibynnol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Pennir y flwyddyn academaidd yn ôl pryd y bydd y myfyriwr yn dechrau ei astudiaethau.

| Mae astudiaethau'r myfyriwr yn dechrau rhwng | Blwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 yn gynhwysol | 1 Medi 2024 hyd 31 Awst 2025 |
| 1 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025 gynhwysol | 1 Ionawr 2025 hyd 31 Rhagfyr 2025 |
| 1 Ebrill 2025 a 30 Mehefin 2025 yn gynhwysol | 1 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2026 |
| 1 Gorffennaf 2025 a 31 Gorffennaf 2025 yn gynhwysol | 1 Gorffennaf 2025 hyd 30 Mehefin 2026 |

**C1** Mae incwm y dibynnydd sy'n blentyn yn ofynnol i asesu'r cymhwyster ar gyfer y didyniadau yng nghyfrifiad incwm y cartref ar gyfer pob plentyn sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol ddibynnol yn ariannol ar y myfyriwr, gwr, gwraig neu bartner y myfyriwr neu rieni neu lys rieni'r myfyriwr.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir incwm y cartref trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

Peidiwch â chynnwys incwm o ffynonellau megis Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth, Budd-dal Plant y Wladwriaeth, Credyd Treth Plant, elfen plant y Credyd Cynhwysol neu isafsymiau o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm dibynnydd sy'n blentyn.

## Datganiad i rieni a phartneriaid

Os na fydd unrhyw unigolyn/unigolion a enwir yn adran 12 yn gallu llofnodi'r ffurflen, rhaid i'w atwrnai ei llofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y atwrnai hwnnw.

### Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi hysbysu'r SLC o unrhyw newid i'ch amgylchiadau, a allai effeithio ar hawl y myfyriwr i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau fyddai:

- os bydd incwm eich cartref yn newid; neu
- os bydd eich statws priodasol yn newid.

### Gwybodaeth am rannu data ar gyfer dibenion bwrsariaeth ac ysgoloriaeth

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig gwobrau ariannol megis bwrsariaethau neu ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwyster a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau – 'dibenion gweinyddu bwrsariaethau'), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru neu'r SLC i Fyfyrwyr am fynediad at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud ag unrhyw gais am gyllid i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

## Hysbysiad Preifatrwydd

SLC a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.